# CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **6 Rhagfyr 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | S.Yelland, G.Morgan, R.Sparks, V.Holland, A.Dacey a/ac M.Harvey |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | N.Pearce, A.Parnell, N.Mayhew, L.Willis, I.Williams, O.Gavigan, C.Moore, M.Shaw, J.Burnes a/ac A.Thomas |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J Curtice, C Holley a J Beynon.

Cadarnhawyd y bydd yr aelodau'n ystyried eitemau 1, 2, 3, 6, 7, 11 a 12.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **Y DIWEDDARAF AM GARTREFI FEL GORSAFOEDD PŴER**

Darparwyd cyflwyniad i'r aelodau yn amlinellu'r prosiect.

Mae'r prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn un o naw prosiect Bargen Ddinesig, ac yn un o dri phrosiect rhanbarthol sy'n cynnwys y pedwar awdurdod lleol. Nod y prosiect yw hwyluso'r broses o

fabwysiadu cartrefi a chanddynt ddyluniad ynni effeithlon a thechnolegau adnewyddadwy integredig, mewn cartrefi newydd a stoc bresennol.

Mae'r amcanion buddsoddi'n cynnwys gwneud 10,300 o gartrefi'n addas ar gyfer y dyfodol drwy gynyddu gwres fforddiadwy, lleihau tlodi tanwydd, gwella iechyd a lles a chyflwyno rhaglen dai sy'n gynaliadwy, yn gost effeithlon ac yn gyfannol.

Amlinellwyd y ffrydiau gwaith amrywiol i'r aelodau, gan gynnwys cronfa cymhellion ariannol o £5.75 miliwn, cronfa cadwyn gyflenwi ranbarthol o £7 miliwn a chontract monitro a gwerthuso technegol o £1 miliwn. Yn ychwanegol, er nad oes unrhyw gyllideb yn atodedig, mae hefyd ffrwd sgiliau y bydd ganddi'r gallu i osod, cynnal a chadw ac atgyweirio technoleg.

Amlinellodd swyddogion yr argymhellion o'r Adolygiad Asesiad Prosiect (AAP) a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Amlinellodd y tîm asesu sgôr gyflawni/hyder o ambr/coch. Cafwyd chwe argymhelliad mewn ymateb i'r adolygiad. Ym mis Tachwedd, daeth y tîm adolygu i asesu'r camau gweithredu a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r argymhellion. Roedd yr adolygiad yn dangos asesiad cyflawni/hyder ambr. Roedd dau o'r argymhellion yn parhau fel thema o hyd, ac roedd pedwar wedi'u marcio fel argymhellion a roddwyd ar waith.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y ffigurau mewn perthynas â nifer y cartrefi'n realistig. Cynghorodd swyddogion y darparwyd y ffigurau gan yr awdurdodau lleol dan sylw a'u bod wedi'u cymryd o'r Cynlluniau Datblygu Lleol, fel bod fformiwla y tu ôl iddynt.

Nodwyd bod swyddi a grëwyd, fel a nodwyd ar y dangosfwrdd yn ymwneud â chyfanswm y swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r prosiect yn ei gyfanrwydd ac nid yw'n benodol i rôl y tîm yn unig.

Nid oedd swyddogion yn gallu darparu ffigur go iawn ar gyfer nifer y tai a oedd wedi cael eu hadeiladu neu eu hôl-osod fel rhan o'r prosiect. Mae hyn yn rhan o'r broses fapio ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol ar gamau gwahanol o'u datblygiadau. Cadarnhawyd gan swyddogion nad yw'r prosiect ei hun yn adeiladu cartrefi newydd, ond yn hwyluso'r gwaith o osod y technolegau newydd yn y cartrefi.

Amlinellodd swyddogion y pwysigrwydd o rannu gwybodaeth ac arfer da, gan gynnwys unrhyw gamgymeriadau a wnaed, ar draws y prosiect. Gan gynnwys yn y sector cyhoeddus a phreifat o ran newid

ymddygiadol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu’r newid cadarnhaol yn gynt. Bydd yn sicrhau bod yr adeiledd tai yn cael ei ddiweddaru a'i wella mor gyflym â phosib i wella ansawdd y safonau tai ar draws y bwrdd, a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Holodd yr aelodau a fyddai'r cynnydd presennol mewn chwyddiant yn effeithio ar nifer cyffredinol yr eiddo y gellir eu datblygu drwy'r prosiect. Nid oedd swyddogion yn gallu cadarnhau hyn.

Roedd swyddogion yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i ddatblygu gweithlu medrus sy'n gallu cyfrannu at gyflawni nodau’r prosiect.

Cadarnhaodd swyddogion, ar hyn y bryd oherwydd y cynnydd mewn costau cyffredinol, roedd yn debygol y byddai llai yn cael ei gyflawni am yr un costau.

Holodd yr aelodau am y cydberthynas rhwng y rhybudd coch a nodwyd ar yr asesiad risg ar gyfer tanwariant, a'r costau adeiladu cynyddol. Cadarnhaodd swyddogion fod y tanwariant yn oedi'r gwaith cyflawni. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'r awdurdod fenthyca llai er mwyn cyflawni prosiectau gan eu bod wedi gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol. Cynghorodd swyddogion nad oes modd ymrwymo i gontractau pan nad oes sicrwydd ynghylch y costau adeiladu.

Gofynnodd yr aelodau am ymweliad safle â'r cartrefi i weld sut y gwnaed y gwaith.

## 4. <u>CYLCH GORCHWYL ARCHWILIO MEWNOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE 2022-23</u>

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

## 5. <u>SIARTER ARCHWILIO MEWNOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE</u>

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

## 6. <u>ADRODDIAD MONITRO ARIANNOL 2022/23 - SEFYLLFA ALLDRO DROS DRO AR GYFER CHWARTER 2</u>

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau yn ymwneud ag Adroddiad Monitro Ariannol 2022-23 fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Amlinellodd swyddogion y manylion a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd yr aelodau at y gwahaniaethau yn y gyllideb a nodwyd rhai rhesymau tebygol ar gyfer y rhain, gan gynnwys COVID. Holodd yr aelodau a oedd risg y byddai'n anoddach mesur y pethau rydym am eu cyflawni o ganlyniad i oedi mewn adeiladu? Cynghorodd swyddogion, ar yr amod bod y prosiectau'n cael eu defnyddio i'w diben a fwriedir, yna gellir parhau i asesu'r cynnyrch economaidd ar sail barhaus.

Cadarnhaodd swyddogion fod yr holl arian wedi'i drosglwyddo i'r awdurdod perthnasol o ran prosiect Yr Egin.

Holodd yr aelodau a oedd y gwahaniaethau wedi cynyddu o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi cynyddu gan taw'r disgwyl oedd y byddai prosiectau wedi gwneud mwy o gynnydd erbyn y cam hwn nag y maent wedi'i wneud mewn gwirionedd. Cadarnhawyd y byddai unrhyw log a gynhyrchwyd yn cael ei ddyrannu i'r awdurdodau cyfansoddol. Byddai hyn yn debygol o gydbwyso'r costau llog cynyddol yr aed iddynt yn erbyn benthyca o ganlyniad i oedi mewn prosiectau a newid yn y farchnad.
Yn dilyn craffu, nodwyd yr adroddiad.

## 7. ADRODDIAD MONITRO CHWARTEROL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Amlinellodd swyddogion yr wybodaeth a gynhwyswyd yn Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r dangosfwrdd a ddarparwyd.

Nododd swyddogion y bu gwahaniaethau, fodd bynnag maent yn gweithio gyda swyddogion y prosiect ac yn chwilio am fesurau lliniaru i benderfynu pam y mae hyn wedi digwydd.

Nodwyd y bu cynnydd o bump i chwe risg goch ar y gofrestr risgiau. Mae'r cynnydd mewn risgiau coch o ganlyniad i danwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Ymchwilir i fesurau lliniaru mewn perthynas â hyn.

Cadarnhaodd swyddogion y bu llawer o gyfathrebu cadarnhaol yn y farchnad am y prosiectau.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth mewn perthynas â Cham 2 Yr Egin. Cadarnhaodd swyddogion nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o ran sut y bydd hyn yn symud ymlaen. Mae swyddogion yn rhagweld y bydd Y Drindod Dewi Sant yn nodi opsiynau a ffefrir ynghylch barhau â hyn yn gynnar y flwyddyn nesaf.

O ran cyllid partneriaeth, cadarnhawyd bod partneriaid yn cyfrannu at ariannu'r swyddfa bortffolio bob blwyddyn. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai'r Swyddfa Rheoli Prosiectau yn cael ei hariannu am 5 mlynedd, fodd bynnag nid oedd y prosiectau wedi dechrau mor gyflym ag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'n debygol y bydd y Swyddfa Brosiect yn cael ei hymestyn y tu hwnt i 5 mlynedd, fodd bynnag nid oes model wedi cael ei greu i ystyried pa mor hir y bydd yn cael ei hymestyn. Mae angen i swyddogaeth y swyddfa RhP gyd-fynd â chyflawni'r prosiectau.

Holodd yr aelodau am y cydberthynas rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Fargen Ddinesig, a'r berthynas rhyngddynt yn y dyfodol. Bydd angen ystyried hyn yn y dyfodol.

Nododd yr aelodau'r adroddiad.

## 8. **PROSES DATBLYGU ACHOS BUSNES BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE.**

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

## 9. **FFRAMWAITH SICRWYDD BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE.**

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

## 10. **TREFNIADAU SICRWYDD PORTFFOLIO 'GATEWAY'**

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

## 11. BLAENRAGLEN WAITH 2022/23

Gofynnodd yr aelodau i wahodd y Cyng. Rob Stuart i gyfarfod yn y dyfodol i drafod dyfodol y fargen ddinesig.

Amlinellodd swyddogion y prosiectau a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor nesaf.

Nodwyd yr eitem hon er gwybodaeth.

## 12. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**